Cofnodion Cyfarfod Blynyddol, Menter Iaith Sir Ddinbych.
Nos Fercher, Hydref 1af 2008, Canolfan Iaith Clwyd, Dinbych

1. **Presennol:**

Dylan Jones	Menter Iaith Sir Ddinbych
Iorwen Jones	Menter Iaith Sir Ddinbych
Gwerfyl Eidda	Menter Iaith Sir Ddinbych
Gerallt Lyall	Menter Iaith Sir Ddinbych
Cerian Ellis	Menter Iaith Sir Ddinbych
Andrea Miller	Cadeirydd
Richard Roberts	Cyfrifwyr Hill & Roberts
Mair Spencer	Unigolyn
Sandra Williams	Cyfieithydd
Nan Edwards	Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Menai Edwards	TWF
Catherine Richards	Mudiad Ysgolion Meithrin
Heddwen Edwards	Athrawon Bro
Gwenan Roberts	Y Bigwn / Cyfarwyddwr
John Glyn Jones	Unigolyn
Menna Jones	Unigolyn
Verona Pritchard Jones	Popeth Cymraeg
Eluned Ellis	Popeth Cymraeg
Hefina Griffiths	Popeth Cymraeg
Linda Jones	Unigolyn
Claire Lewis	Unigolyn
Sion Edwards	Actif 24/7
David Davies	Cyngor Sir Ddinbych
Gwyneth Evans	Unigolyn
Barbara Crawford	Unigolyn
Sion Wynne	Menter Iaith Maelor
Caryl Vaughan	Ysgrifennydd
Ceri Evans	Trysorydd
Steve Crosby	Unigolyn
Meryl Pierce	Unigolyn
Marian Rees	Unigolyn

Ymddiheuriadau:

Lois Cernyw	Urdd Gobaith Cymru
Hafina Clwyd	Unigolyn
Carys Gwyn	Mudiad Ysgolion Meithrin
Eleri Roberts	Ffermwyr Ifanc
Arwyn Jones	Is-gadeirydd
Emyr Williams	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Sir Ddinbych
Llinos Davies	Llyfrgell Rhuthun

Eleri Lloyd Jones	Cymdeithas Tai Clwyd
Geraint Davies	Ysgol Twm o'r Nant
Ceri Robertson	Ysgol Frongoch
Anwen Williams	Merched y Wawr
Ysgol Pantpastynog	
Iddon Edwards	Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Sian Rogers	Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Glyn Jones	Cyfarwyddwr
Iolo Dafydd	Cynllun Rhuthun
Sian Lloyd Parry	Cynllun Bro Edeyrnion
Cyng. Morfudd Jones	Cyngor Sir Ddinbych
Susan Muse	Grŵp Busnes Dinbych

2. Croeso

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Andrea Miller, Cadeirydd Pwyllgor Cyfarwyddwyr Menter Iaith Sir Ddinbych, ac eglurodd drefn y noson.

3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cadarnhawyd bod Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Menter Iaith Sir Ddinbych, a gynhaliwyd Nos Fercher Hydref 17eg 2007 yng Nghanolfan Iaith Clwyd yn rhai cywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

5. Adroddiad Blynyddol

Diolchodd Dylan i bawb am ddod i'r cyfarfod a chafwyd cyflwyniad ganddo ar gynnwys yr adroddiad oedd yn sôn am y flwyddyn ariannol 2007-2008. Eglurodd strwythur y Fenter a hefyd y newidiadau personél oedd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn. Soniwyd hefyd am y grantiau oedd wedi dod i mewn, a'r ffaith y bod arian Amcan 1 yn dod i ben ddiwedd 2008 ac oherwydd y byddwn yn colli aelod o staff. Derbyniwyd yr adroddiad a diolchwyd a llongyfarchwyd y staff ar eu gwaith da trwy gydol y flwyddyn. Nododd Dylan hefyd ei fod yn 10 mlynedd i'r diwrnod ers i'r ddau aelod cyntaf o staff gael eu penodi.
Cafwyd diolch i staff y Fenter am eu gwaith gan Andrea.

6. Adroddiad Ariannol

Nid oedd Richard Roberts yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod felly cyflwynwyd yr adroddiad ariannol gan y trysorydd Ceri Evans.

Bu'n flwyddyn lwyddiannus unwaith eto a diolchwyd i'r staff am eu gwaith caled.

Nodwyd nad yw Hill & Roberts yn gallu bod yn Arolygwyr Annibynnol ac mai cyfrifwyr yn unig ydynt i'r Fenter. Nodwyd hefyd nad oes angen archwilwyr ar y Fenter gan nad yw'r trosiant yn fwy na £250,000.

Derbyniwyd yr adroddiad ariannol gan yr aelodau.

7. **Newid cymal E (c) o'r cyfansoddiad**

Ymddiswyddodd y cyfarwyddwyr isod, a chymrodd Dylan y gadair.
Diolchodd Dylan i'r holl gyfarwyddwyr am eu gwaith dros y flwyddyn.

8. Ethol Aelodau Pwyllgor Rheoli

Cytunodd y canlynol i barhau i fod yn aelodau o bwyllgor rheoli'r Fenter 2008-2009

Arwyn Jones	Popeth Cymraeg
Andrea Miller	Unigolyn
Gwenan Roberts	Papur Bro y Bigwn
Ceri Evans	Unigolyn
Caryl Vaughan	Unigolyn
Morfudd Jones	Cyngor Sir Ddinbych

Derbyniwyd ymddiswyddiad gan Glyn Jones oedd yn cynrychioli Cynllun Corwen. Fe dderbyniwyd enwebiadau gan Neville Hughes Cyngor Sir Ddinbych a Marian Rees Unigolyn yn hwyr, felly cânt eu cyfethol ym mis Ionawr 2009 sef dyddiad cyfarfod nesaf y pwyllgor.

9. Ethol Swyddogion

Etholwyd y canlynol yn swyddogion Menter Iaith Sir Ddinbych 2008-2009

Cadeirydd	Andrea Miller
Is-gadeirydd	Gwenan Roberts
Ysgrifennydd	Caryl Vaughan
Trysorydd	Ceri Evans
Cyfrifwyr	Hill & Roberts, Rhuthun

10. Siaradwraig wadd

Croesawyd y siaradwraig wadd Leah Owen a'i mab YnyrMair Spencer gan yr is Gadeirydd newydd Gwenan Roberts. Cafwyd sgwrs a chân ddifyr gan Leah am ddylanwadau ei bywyd, a chafwyd dwy gân gan Ynyr.
Diolchwyd iddi gan Dylan a chyflwynwyd anrheg iddi gan Andrea.

11. Diolchiadau

Talwyd diolchiadau gan Dylan. Diolchodd Dylan i'w staff am eu gwaith caled ac yn enwedig i Iorwen am drefniadau'r cyfarfod blynyddol. Gan mai hwn yw cyfarfod blynyddol olaf Gwerfyl, cyflwynwyd blodau iddi i ddiolch am eu gwaith dros y blynyddoedd.